
Cyngor Ieuenctid Cymru
Wales Youth Agency




# Neges

papurau achlysurol ar bynciau
i weithwragedd/wyr ieuenctid



## Y syniad o ‘bolisi ieuenctid’ – taith trwy Ewrop



Mehefin 2004 / Dr Howard Williamson CBE
Cyngor Ieuenctid Cymru
Llys Leslie, Lôn y Llyn, Caerffili CF83 1BQ
Ffôn 029 20 855700  Ffacs 029 20 855701
Mae’r adroddiadau hyn hefyd ar gael ar ein gwe: www.wya.org.uk

# Y syniad o 'bolisi ieuenctid' – taith trwy Ewrop

## Rhagarweiniad

Yn ôl y chwedl, soniodd y Norwyad Ragnar Sem, cyfarwyddwr cyntaf Canolfan Ieuenctid Ewropeaidd Cyngor Ewrop yn Strasbourg, un tro: 'Gwlad fach yw Norwy o safbwynt Ewrop, efallai, ond o ran polisi ieuenctid mae'n allu mawr .' Yn fwy diweddar, gallai Gweinidog Addysg a Dysgu Gydol Oes y Cynulliad Cenedlaethol, Jane Davidson, sy'n cynrychioli'r DU ar faterion ieuenctid yn yr Undeb Ewropeaidd (UE) hawlio rhywbeth tebyg i Gymru. Efallai fod rhai'n nogio o flaen haeriad o'r fath, o gofio'r cwyno parhaus am anhrefn honedig mewn gwasanaethau ieuenctid (yn yr ystyr ehangaf) a'r sôn byth a beunydd am brinder cyllid. Yn sicr, o'i gymharu â Norwy, mae'r cyllid ar gyfer mudiadau ieuenctid gwirfoddol yng Nghymru *yn* gynnil. Mae'n dyfarnu pro rata tuag un rhan o chwech o'r swm a roddir yn Norwy. Ar y llaw arall, mae'n hynod hael o'i gymharu â Latfia, y wlad dlotaf ymhlith aelodau newydd yr UE, sy'n rhoi (pro rata eto) tua 200 gwaith yn fwy. Ar y llaw arall, dylid nodi, pro rata eto, fod gan Gymru 'gyllideb' sydd ddeng gwaith yn fwy na Slofenia, y wladwriaeth gyfoethocaf o blith yr hen wledydd comiwnyddol sydd wedi ymaelodi â'r UE (er ei bod yn dlotach na Malta a Chyprus). Cymharol yw popeth, ac yn sicr nid yw'r Ewrop estynedig yr ydym yn byw ynddi yn lle teg o safbwynt pobl ifanc, lle ceir anghydraddoldeb trawiadol o hyd o ran profiad a chyfle.

Eto i gyd, yn y gorffennol, gwnaeth Cymru gyfraniad sylweddol tuag at feddwl am bolisi ieuenctid yn yr Ewrop ehangach honno, ac mae'n dal i wneud hynny heddiw. Daw cyfle pellach i ymestyn y dylanwad hwnnw tra bydd y DU yn mabwysiadu Arlywyddiaeth yr Undeb Ewropeaidd yn ail hanner 2005, pan fydd Cymru'n mynd yn gyfrifol am y wedd ieuenctid ar y gweithgareddau hyn.

Hyd y Flwyddyn Ieuenctid Ewropeaidd yn 1985, ychydig o sylw a roddwyd i'r hyn a alwai Paul Willis ar y pryd yn 'gyflwr cymdeithasol' pobl ifanc (Willis *et al.* 1988). Heb ymboeni'n ormodol am y dadleuon academaidd ar gyflwr cyfnewidiol 'trawsnewidiadau ieuenctid', roedd yn dod yn amlwg bod y patrymau a fodolai oddi ar y 1950au, yn y rhan fwyaf o Ewrop yn newid, am wahanol resymau. Ni theimlid bod sicrwydd bellach am y llwybrau unionsyth o'r ysgol neu o'r coleg i'r gweithle, o fywyd dibynnol i fywyd annibynnol, ac o deuluoedd cysefin i deuluoedd dewis. A rhoi'r peth ar ei symlaf, roedd y trawsnewidiadau'n dod yn fwy cymhleth ac yn fwy estynedig, ac ni ellid eu gwarantu mwyach:yn achos pob un o'r trawsnewidiadau a nodwyd uchod, roedd modd troi'r broses o chwith hefyd. Yn sicr, roedd y cyfleoedd potensial i bobl ifanc yn fwy, ond yr oedd risg gyfatebol hefyd, ac yn yr 1980au gwelwyd am y tro cyntaf y newidiadau i bolisi ar ddiweithdra, trosedd, cam-drin cyffuriau a dieithrwch cymdeithasol ymhlith pobl ifanc. Gwnaed y problemau hyn yn waeth yn niwedd yr 1980au wrth i gomiwnyddiaeth ddod i ben yn y dwyrain ac wrth i'r farchnad rydd ddod i rym yn y gorllewin. Nid bod popeth wedi'i ganolbwyntio ar y problemau a wynebai bobl ifanc. Rhoddwyd sylw cynyddol hefyd i atgyfnerthu'r agweddau cadarnhaol ar fywydau pobl ifanc, gan ystyried cwestiynau cyfranogi a phosibiliadau'r 'gymdeithas wybodaeth' newydd. Gwelwyd agenda o'r fath yng Nghonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Plant, a luniwyd yn niwedd yr 1980au ar gyfer plant *a* phobl ifanc (hyd at 18 oed). Yng Nghymru yn 1991, yn ystod yr Ail Gynhadledd Ewropeaidd ar Bolisïau Ieuenctid Lleol a Rhanbarthol (cynhaliwyd y gynhadledd gyntaf yn Lausanne yn 1987), arwyddwyd 'Datganiad Llangollen', yn cymeradwyo rhagor o gyfranogi gan bobl ifanc ar draws Ewrop ar lefel leol a rhanbarthol.

Cynigion cynnar oedd y rhain ar ystyriaeth fwy cadarn i'r syniad o 'bolisi ieuenctid', sut y gallai polisi o'r fath gael ei droi'n arfer effeithiol, ac i ba raddau y dylai polisi o'r fath gael ei ategu gan ymchwil i ieuenctid. Yn wir, yn niwedd yr 1980au a dechrau'r 1990au y gwelwyd annigonolrwydd triongl hud ymchwil, polisi ac arfer: rhedai ymchwil ieuenctid ar hyd un set o gledrau, âi ymarferwyr ymlaen gyda'u gwaith, ac ymhyfrydai'r gwleidyddion yn eu dogfennau rhethregol. Yn yr 1990au, gwnaed ymdrech fwy taer i gyfuno'r elfennau hyn. Cyhoeddodd yr Undeb Ewropeaidd Bapur Gwyn yn 1995 ar ddysgu ac addysgu, y ceisiodd un rhan ohono fynd i'r afael â dieithrwch cymdeithasol pobl ifanc (a'i atal) trwy sefydlu ysgolion 'ail gyfle' a rhaglen y Gwasanaeth Gwirfoddol Ewropeaidd (EVS) (Comisiwn Ewropeaidd 1995). Cynhaliodd Cyngor Ewrop ei ail symposiwm ar ymchwil i ieuenctid yn Budapest yn 1996 (cynhaliwyd y symposiwm cyntaf yn Strasbourg ddegawd ynghynt), i ystyried gweithredu'r 'gymdeithas wybodaeth' i bobl ifanc o safbwynt ymarferol (gweler Williamson 1997a). Cyhoeddodd Cyngor Ewrop adroddiad

hefyd ar 'waith ieuenctid' - neu *la vie associative* – yn Ewrop, gan nodi rhai agweddau ar arfer da y dylai pobl ifanc gael mynediad iddynt (Cyngor Ewrop 1996). Ac, yng nghanol y degawd hwnnw, cefnogodd y Comisiwn Ewropeaidd y rhaglen 'Ieuenctid dros Ewrop' (a esblygodd gydag amser i'r rhaglen 'IEUENCTID' gyfredol, a droir yn fuan yn rhaglen newydd eto ar gyfer 2007-13). Dan y rhaglen hon anogwyd ac ariannwyd prosiectau cyfnewid ieuenctid a mentrau ieuenctid y credid y byddent, *inter alia*, yn hybu datblygiad personol, menter (De Wachter a Kristensen 1995) a chyd-ddealltwriaeth rhwng diwylliannau. Yn wir, cynhaliodd DG XXII o'r Comisiwn Ewropeaidd brosiect ymchwil yn 1997 yn edrych ar effaith gwahanol rannau o'r rhaglen hon ar yr hyn a elwid ar y pryd yn 'ddinasyddiaeth gyda dimensiwn Ewropeaidd'. Daethpwyd i adnabod yr ail, yn amhersonol braidd, fel yr astudiaeth ddinasyddiaeth DG XXII (Comisiwn Ewropeaidd 1998).

Cerrig camu oedd yr holl ddatblygiadau hyn tuag at gychwyn yr agenda 'polisi ieuenctid' o ddifrif tua diwedd yr 1990au. Aeth yr Undeb Ewropeaidd (15 o wledydd ar y pryd) a Chyngor Ewrop (48 o wledydd) ati i fynd i'r afael â 'r cysyniad o 'bolisi ieuenctid' gan geisio sicrhau lle ar agendâu gwleidyddol cenedlaethol a rhyngwladol.

**Papur Gwyn yr Undeb Ewropeaidd**

Tua diwedd 1999, cyhoeddodd y Comisiynydd Ewropeaidd dros Addysg a Diwylliant, Viviane Reding, ei bwriad i gefnogi Papur Gwyn gan yr Undeb Ewropeaidd ar ieuenctid. Dilynwyd hyn gan broses ymgynghori helaeth gydag ymchwilwyr ieuenctid, mudiadau ieuenctid a'r aelod wladwriaethau (a'r 13 o ddarpar aelodau, y mae deg ohonynt bellach yn aelodau llawn o'r UE) cyn lansio Papur Gwyn yng Ngwlad Belg ym mis Tachwedd 2001 (Comisiwn Ewropeaidd 2002).

Ar ôl dadl hir, estynedig, yn enwedig ar faterion y tu hwnt i 'gymhwysedd' y Papur Gwyn (megis addysg a chyflogaeth), dynododd y Papur Gwyn yr hyn a ystyriai fel 'maes ieuenctid' a nododd bedair blaenoriaeth allweddol: cyfranogiad, gwybodaeth, gwasanaeth gwirfoddol a deall ieuenctid. Ar sail y rhain, hyd yma, y mae'r Comisiwn Ewropeaidd wedi ymwneud â'r hyn a elwir, yn fras braidd, yn 'ddull cydlynu agored'. Anfonwyd holiaduron at bob un o'r aelod wladwriaethau ar bob un o'r pynciau hyn, lluniwyd adroddiad yn ei sgil ym Mrwsel, a sefydlwyd 'amcanion cyffredin' i'r Undeb Ewropeaidd yn ei sgil ar egwyddorion 'polisi ieuenctid'. Wrth imi ysgrifennu'r geiriau hyn, mae'r Comisiwn Ewropeaidd yn ystyried y camau nesaf ym mhroses y Papur Gwyn.

**Cyngor Ewrop**

Dros gyfnod tebyg, bu Cyfarwyddiaeth Ieuenctid Cyngor Ewrop hyn gweithio ar broses wahanol o ddatblygu 'polisi ieuenctid'. Yn 1996, cytunodd ei Grŵp Llywio ar Gydweithrediad ym Maes Ieuenctid (y CDEJ – yn cynnwys gweision sifil uwch o bob un o'r aelod wladwriaethau) gychwyn cyfres o adolygiadau polisi ieuenctid rhyngwladol o bolisi ieuenctid cenedlaethol. Yr oedd iddo bwrpas triphlyg: cefnogi datblygiad polisi ieuenctid cenedlaethol, darparu gwersi i wledydd eraill yn seiliedig ar yr adolygiadau o'r gwledydd unigol, a chreu portffolio o arfer da a fframwaith ar gyfer datblygu polisi ieuenctid o fewn Cyngor Ewrop.

Mae pob adolygiad rhyngwladol (a bu deg ohonynt hyd yma, ac mae un arall ar y gweill) wedi dilyn patrwm unigryw, er bod nodweddion cyffredin gan bob un. Bydd y wlad dan sylw yn cyhoeddi adroddiad cenedlaethol a ddefnyddir yn gynsail ar gyfer yr ymchwiliad rhyngwladol. Mae'r tîm adolygu rhyngwladol yn cynnwys gwahanol swyddogion y llywodraeth, pobl ifanc, ymchwilwyr ieuenctid a swyddog o Gyngor Ewrop. Bydd yn ymweld â'r wlad dan sylw, gan gwrdd â gwleidyddion, swyddogion gweinidogaethau, mudiadau ieuenctid a rhai sy'n ymwneud ag ymarfer ar lefel ranbarthol a lleol. Wedi hynny bydd yn cyhoeddi adroddiad rhyngwladol a gyflwynir i'r wlad honno ac i gyfarfod o'r CDEJ. Hyd yn hyn, bu adolygiadau o'r Ffindir, yr Iseldiroedd, Sweden, Sbaen, Romania, Estonia, Lwcsembwrg, Lithwania, Malta a Norwy, a daw adolygiad o Gypros i ben yn niwedd 2004. Fe'i dilynir gan adolygiadau yn Slofacia, Hwngari ac Azerbaijan. Cyhoeddwyd adroddiad cyfun o'r saith adroddiad cyntaf – yn trafod cwestiynau yn codi o'r adroddiadau cenedlaethol a rhyngwladol – yn 2002 (Williamson 2002).

Ar sail y gwaith hwn, mae Cyngor Ewrop wedi datblygu'r arfer hefyd o sefydlu 'cenadaethau cynghori' i gynorthwyo llywodraethau i feddwl am agweddau penodol ar ddatblygu polisi ieuenctid. Mae'r cenadaethau hyd yma wedi cynnwys Slofenia, Hwngari, Croatia a'r Wladwriaeth Tsiec, ac mae eraill ar y gweill ym Macedonia a Kosovo. Mae'r Gyfarwyddiaeth Ieuenctid wedi gweithio hefyd ar y syniad o 'ddangosyddion' polisi ieuenctid – ffordd amrwd ond defnyddiol o benderfynu a yw polisi ieuenctid yn symud i'r cyfeiriad iawn, trwy gryfhau cyfleoedd i bobl ifanc a lleihau risg. Ar ben hynny, mae'r CDEJ wedi gweithio ar 'safonau' ar gyfer datblygu polisi ieuenctid, gan gytuno ar fframwaith o egwyddorion ac arferion a ddylai ategu mentrau gwleidyddol yn y maes.

**Partneriaeth rhwng yr UE a Chyngor Ewrop**

Ategwyd y ddau fath o bolisi ieuenctid gan arfer mwy sylfaenol – trwy raglen IEUENCTID y Comisiwn Ewropeaidd, y cyrsiau hyfforddi rhyngwladol a redir gan Gyngor Ewrop, a'r hyfforddiant a ddarperir gan dimau o hyfforddwyr Ewropeaidd ar gyfer hyfforddeion rhyngwladol ac mewn gwledydd unigol. Yn wir, ym maes hyfforddi y sefydlwyd protocol a phartneriaeth am y tro cyntaf rhwng y Comisiwn a'r Cyngor (yn 1998), a arweiniodd at weithredu'r ATTE (Hyfforddiant Uwch i Hyfforddwyr yn Ewrop) 2001 a 2003.

Mae'r Comisiwn a'r Cyngor wedi cytuno hefyd ar gydweithrediad Euro-Med ym maes ieuenctid ac, yn fwy diweddar, maent wedi llunio protocol ar ymchwil i ieuenctid lle mae seminarau ymchwil i ieuenctid wedi cael eu cynnull o fewn Cyngor Ewrop i ymdrin â'r blaenoriaethau a nodwyd ym Mhapur Gwyn yr UE.

**Ymestyn Hawliau**

Mae'n bosibl bod hyn i gyd yn ymddangos yn amherthnasol i Gymru – sydd â'i fframwaith 'polisi ieuenctid' ei hun ar ffurf *Ymestyn Hawliau* – ac mae llawer sy'n gweithio ym maes ieuenctid yng Nghymru heb fawr o wybodaeth, os dim, am ddatblygiadau o'r fath. Er hynny, mae Cymru wedi cael cryn ddylanwad ar y meddylfryd sydd wedi arwain at y syniad o bolisi ieuenctid yn Ewrop, yn yr un modd ag y mae'r fframwaith Ewropeaidd wedi ennill ei blwyf yng Nghymru. Yng nghynhadledd CYWU Cymru yn 2004 awgrymodd, Jane Davidson i Bapur Gwyn yr UE gael ei lansio yng Nghymru. Nid yw hyn yn gwbl gywir, er ei bod yn berffaith wir dweud mai Cymru oedd y lle cyntaf i weld cyflwyno a thrafod y Papur Gwyn yn sgil ei lansiad ffurfiol yn Ghent. Yn sicr, mae Gweinidog Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi bod yn angerddol ac yn ddylanwadol o ran hybu athrawiaeth Ymestyn Hawliau trwy gydol Ewrop – athrawiaeth sydd wedi ennill bryd gwneuthurwyr polisi ieuenctid mewn lleoedd mor anghysbell â Moldofa. Roedd yn destun cryn syndod imi pan allai swyddog o Chisnau (prifddinas Moldofa) gyfeirio 'n fanwl at y ddogfen bolisi wreiddiol (Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2000).

Mewn sawl ffordd, er hynny, nid oedd hyn yn syndod. Yn fy ymwneud i â llunio Ymestyn Hawliau, tynnais yn helaeth ar y syniadau a ddatblygais trwy fy ngwaith Ewropeaid ar gwestiynau ieuenctid ers y 1980au. Bu'n rhaid newid sôn am 'broblemau' ieuenctid (diweithdra, cyffuriau neu drosedd) am well dealltwriaeth o'r hyn yr wyf wedi cyfeirio ato'n anffurfiol fel oedolion ifanc 'sefydlog' – a gwell dealltwriaeth o'r hyn sydd wedi eu gwneud yn sefydlog. Nid rhywbeth sy'n digwydd ohono'i hun yw oedolion ifanc 'cyflogadwy' sy'n 'ddinasyddion' da (a defnyddio ieithwedd ffasiynol cyflogadwyedd a dinasyddiaeth): mae eu cymeriad, eu cymhwysedd a'u hyder yn cael eu llunio gan y profiadau a'r cyfleoedd sy'n eu hwynebu. Yn y gorffennol (hy am ran helaeth o'r ugeinfed ganrif) darparwyd y profiadau a'r cyfleoedd hyn trwy'r teulu a'r ysgol (mewn gwledydd cyfalafol a chomiwnyddol). Yn yr oes fyd-eang ac ôl-fodernaidd' sydd ohoni, er hynny, roedd angen ymestyn ac amrywio'r cyfleoedd hyn – gan gynnwys y profiadau addysgol anffurfiol (gwaith ieuenctid) sy'n cyfrannu at ddatblygu sgiliau 'meddal' a'r gallu i 'reoli bywyd' (Helve a Bynner 1996). *Mae* llawer o bobl ifanc yn gallu dal ar y cyfleoedd hyn mewn sawl ffordd. Fodd bynnag, mae rhai'n methu. A rhaid i bolisi cyhoeddus wneud mwy o ymdrech i gynnig hawliau tebyg i'r bobl ifanc hynny. Oherwydd os nad ydym, ni ddylem synnu os bydd y bobl ifanc hynny'n dod yn bobl ifanc 'broblemus' ac yn destun pryder gan y gwleidyddion a'r cyhoedd. Mewn gair, y nod yng Nghymru a'r fframwaith newydd yn Ewrop yw dadlau dros bolisi ieuenctid sy'n ffocysu ar gyfleoedd yn hytrach nag ar broblemau. Er gwaethaf y tueddiadau i'r

gwrthwyneb – oherwydd pobl ifanc sy'n 'broblem' sy'n mynnu sylw gwleidyddion bob amser yn y tymor byr – ceir dealltwriaeth gynyddol mai'r ffordd orau o atal problemau a achosir ac a wynebir gan bobl ifanc yw hyrwyddo cyfleoedd gwell – ar yr aelwyd, yn yr ysgol, mewn hamdden ac yn y gweithle, a thrwy gymryd rhan yn y gymdeithas sifil. Mae penawdau 'ymestyn hawliau', os nad y meddwl y tu ôl iddo, yn deillio'n bendant o Gymru, ond mae lle allweddol iddo bellach mewn datblygiadau polisi ieuenctid ar draws Ewrop.

**Her gweithredu**

Beth bynnag fo'r her wleidyddol wrth greu a ffurfio 'polisi ieuenctid', y maen prawf pwysicaf yw ei ddarparu. Mae'r optimistiaeth a oedd yng Nghymru, yn sgil llwyddo i gael cefnogaeth unfrydol ymhlith gwleidyddion i Ymestyn Hawliau pan fu#'n destun dadl gan Lywodraeth Cynulliad Cymru (yr unig dro i hyn ddigwydd), wedi oeri peth oherwydd y dryswch a'r dadlau ynghylch strwythurau priodol i'w ddarparu. Mae'r adnoddau sylweddol ychwanegol a roddwyd ar gyfer hyfforddiant (creu gallu potensial a datblygu'r gweithlu), gwybodaeth i bobl ifanc, a'r sector ieuenctid gwirfoddol wedi arwain at gryn anghydfod o fewn y maes ieuenctid: bu cryn ddadlau ynglŷn â phwy sydd i wneud beth, a sut i'w wneud. Nid dyma'r lle i sôn yn fanwl am y dadleuon hynny, Y peth pwysig yma yw cydnabod, heb dderbyn o bosibl, mai dyma sy'n digwydd yn gyson. Ledled Ewrop, un peth yw cytuno ar gael polisi ieuenctid; peth arall hollol yw cydsynio ar sut mae ei weithredu.

Aeth un o aelodau newydd yr UE, Lithwania, ati ar fyrder i greu fframwaith blaengar ar gyfer datblygu polisi ieuenctid. Cytunodd ar 'gysyniad polisi ieuenctid' yn 1997, yn seiliedig ar yr egwyddor o gydreoli rhwng y llywodraeth a choalisiwn o fudiadau ieuenctid (Lijot). Mae'r syniad – y cysyniad – yn gymeradwy iawn; ond yw gwir yw nad oedd gan bobl ifanc fynediad i fawr ddim y tu allan i'r dinasoedd mawr. Dyma'r hanes trwy'r rhan fwyaf o Ewrop ac, wrth imi drafod datblygu polisi ieuenctid yn Vilnius rai blynyddoedd yn ôl (a chwarae gyda'r 'c' sydd yn 'cysyniad'), digwyddais ddod ar draws y pum 'C' sydd mewn polisi ieuenctid:


- Cwmpas
- Cylch
- Cymhwysedd
- Cydlyniad
- Cost

Daeth yn amlwg imi fod y bwriadau mwyaf canmoladwy o ran polisi ieuenctid yn cael eu rhwystro ar unwaith gan un neu ragor o'r dimensiynau hyn. Gall un obeithio cyflwyno pecyn o brofiadau a chyfleoedd ond y pwnc llosg yw i ba raddau y gellir ei ymestyn, yn ddaearyddol ac mewn perthynas â'r grwpiau cymdeithasol penodol o bobl ifanc (cwmpas). Mae llawer yn dibynnu, wrth gwrs, ar yr hyn y mae Cyngor Ewrop yn ei lw bellach yn 'strwythurau darpariaeth': a yw'r systemau yn eu lle i sicrhau darpariaeth ar lefel leol a rhanbarthol, naill ai trwy strwythurau'r llywodraeth neu'r sector gwirfoddol (cylch). Hyd yn oed os bydd strwythurau felly yn eu lle (ac mewn gwledydd fel Romania, mae'n eglur nad ydynt, felly mae ei 198 o benderfyniadau ar bolisi ieuenctid yn dal ar ddesg gwas sifil yn rhywle), cyfyd cwestiwn sgiliau a chymwysterau'r rhai sy'n gweithio gyda phobl ifanc (cymhwysedd). Yn nwyrain Ewrop (ac yn wahanol i orllewin Ewrop), ceir – bron yn llythrennol – fyddinoedd o bobl sy'n awyddus i weithio gyda phobl ifanc, ond ychydig iawn sydd wedi cael eu hyfforddi i weithio ar bynciau neilltuol na gyda grwpiau cymdeithasol neilltuol. Ar ben hynny, o gofio'r gydnabyddiaeth gynyddol a roddir i'r angen am 'arfer cydgysylltiol', mae angen darparu'n briodol ar gyfer dadlau, cynllunio a gweithredu ar draws sectorau, yn fertigol ac yn llorweddol (cydweithrediad). Mae rhanbarthau hunanlywodraethol Sbaen yn rhwystrau sylweddol ar ddarparu polisi ieuenctid cydradd trwy'r wlad honno. Yn yr un modd, yn Norwy, a ystyrir yn aml yn esiampl o bolisi ac arfer ieuenctid cadarnhaol, mae ymreolaeth (ystyfnig yn aml) ei 434 o drefedigaethau (bychain iawn) yn ei gwneud yn anodd iawn gweithredu cynlluniau a dyheadau'r llywodraeth ganolog. Yn ogystal, mae'r naill garfan yn aml yn gwbl ddall i weithredoedd y garfan nesaf ati, er gwaethaf y gefnogaeth a'r adnoddau hael a roddir i bob garfan wneud *ei rhan fach hi* o bolisi ieuenctid yn effeithiol. Yn olaf, wrth gwrs, ychydig o wledydd sydd â chyfoeth ac ymroddiad gwleidyddol Norwy i bobl ifanc (lle mae adnoddau'n llifo); a heb adnoddau digonol mae'n anodd gwireddu amcanion mawr unrhyw bolisi ieuenctid (cost). Eto i gyd, yn Ffindir, neilltuir cyfran sylweddol

o'r loteri genedlaethol (dan arweiniad y llywodraeth) ar gyfer pobl ifanc; mae hyd yn oed gyfran o gyllid y loteri'n cael ei anelu at sefydlu gwasanaeth gwybodaeth i bobl ifanc, Gellir darganfod adnoddau 0sbydd digon o ewyllys.

**Y deinameg gwleidyddol**

Mewn cwpl o wledydd y Baltig, fe ddaeth datblygiad polisi ieuenctid i ben am gyfnod oherwydd diffyg neb i'w hybu. Mewn rhannau eraill o Ewrop, mae'r holl weinyddiaeth yn newid bob tro y bydd newid grym gwleidyddol. Beth bynnag fydd yn digwydd yng Nghymru, dylem ymhyfrydu yn y ffaith bod peth sefydlogrwydd tyn ein gweinyddiaeth gyhoeddus ac ymrwymiad eglur iawn i bobl ifanc ar lefel Gweinidogion. Fodd bynnag, trwy ddysgu gwersi o weddill Ewrop, gwelir deinameg gwleidyddol sy'n cymell neu'n atal pob math o bolisi ieuenctid. Yn sicr, mae angen rhywun i'w hyrwyddo yn wleidyddol, er mwyn sicrhau'r fframwaith a'r adnoddau angenrheidiol. Yn sicr, mae angen strwythurau i'w ddarparu. Ond mae angen lle a photensial i ddadlau, i ddiddyfnu, i ymateb i amgylchiadau newydd, gryfhau'r ffocws mewn rhai meysydd ac efallai i lacio'r afael mewn eraill (yng nghyd-destun y DU gallai'r ddadl ar achredu gwaith ieuenctid fod yn enghraifft briodol o hyn). A hefyd mae angen adeg pryd y bydd y 'maes' yn mygu unrhyw wahaniaethau ac yn dangos undod – gan mai felly yn unig, yn ôl pob tebyg, y bydd y baich yn cael ei ysgwyddo gan wleidydd perthnasol. Heb i'r pethau hyn fod ar waith, mae mentrau polisi ieuenctid yn ddiamddiffyn. Bydd gwleidyddion yn alaru ar ddadleuon mewnol ac yn troi eu sylw at faterion eraill, bydd ymarferwyr yn teimlo'n ddiymgeledd, a bydd y dialog yn dirwyn i ben. Bydd pobl yn dechrau ymddwyn fel petaent dan warchae a bydd negyddiaeth (a hunanamddiffyn) yn ymsefydlu. Ar y llaw arall, lle boi'r elfennau hyn ar waith ceir sicrwydd datblygiad – sicrwydd sy'n arwain at arfer effeithiol, dialog myfyrgar ac ewyllys o du gwleidyddion. Heb y pum 'C', wrth gwrs, ni fydd fawr yn digwydd, ond anghenion a heriadau yw'r rhain o ran isadeiledd. Materion eraill, er hynny, a fydd yn penderfynu a fydd polisi byth yn cyrraedd y bobl ifanc a dargedir ar ffurf ystyrlon a than arweiniad y bobl iawn




**Casgliad**

Mae'r syniad o 'bolisi ieuenctid' wedi cyrraedd mannau gwahanol mewn gwahanol rannau o Ewrop. Nid nad yw byth yn bod oherwydd, fel y bûm yn dadlau mewn man eraill, mae gan bob gwlad ei pholisi ieuenctid – o fwriad neu er ei gwaethaf (gweler Williamson 1997). Effeithir ar fywydau pobl ifanc, boed mewn ffordd wahanol, yn gymaint gan brinder cyfleoedd a darpariaeth â ganddynt. Eto, i raddau mwyfwy, rhaid i bolisi ar gyfer pobl ifanc fod yn bwrpasol a chydlynus os yw i fod yn effeithiol mewn ffordd *adeiladol*.

Mae'n wir ein bod yn byw yn gynyddol dan ambarél Undeb Ewropeaidd ac ambarél fwy annelwig Cyngor Ewrop, ond mae'r profiadau a'r cyfleoedd sy'n wynebu pobl ifanc yng Nghymru yn wahanol i rai sy'n wynebu pobl ifanc yng ngwlad ranedig Cypros. Eto mae gan y naill a'r llall

lawer i'w ddysgu gan ei gilydd. Mewn ffordd anuniongyrchol, mae Cymru wedi creu rhai agweddau ar ei pholisi ieuenctid ar sail yr hyn a ddysgwyd yn Ewrop; mewn ffordd fwy uniongyrchol, mae meddylfryd 'Ymestyn Hawliau' wedi ategu datblygu polisi ieuenctid mewn gwledydd eraill.

Gwlad fechan yw Cymru yng nghyd-destun Ewrop, ond nid hi yw'r leiaf o bell ffordd. Efallai nad yw hi'n allu byd-eang ym maes polisi ieuenctid ond mae hi wedi bod yn bur ddylanwadol ar lefel Ewropeaidd. Yn lled ddiweddar, bu gweithwyr ieuenctid o Gymru'n rhannu sylwadau gyda rhai o'r Gwledydd Baltig, yn ystod cyfarfod yn Lithwania. Mae'n debyg mai ychydig sy'n gyffredin rhwng Cymru a gwledydd mawr fel Gwlad Pwyl, Hwngari a Romania, ond mae ganddi lawer yn gyffredin gyda llu o bartneriaid newydd o faintioli a nodweddion gwleidyddol tebyg: Latfia, Estonia, Lithwania, Slofacia, Slofenia, Catalonia, Cypros ac yn y blaen. Fe all fod eu traddodiadau diwylliannol, gwleidyddol a phroffesiynol yn wahanol iawn, ond bydd pob un â diddordeb ac ymrwymiad i gynorthwyo eu pobl ifanc ac ymestyn eu hawliau. Mae'n debyg bod eu rhesymau dros wneud yn amrywiol – er mwyn 'creu cenedl', datblygiad economaidd, cydlyniad cymdeithasol – ond mae gan bobl ifanc yn Ewrop lawer yn gyffredin yn ogystal â'r gwahaniaethau. Ond mae hynny'n wir hefyd am bobl ifanc yn Aberfan ac yn Abersychan. Nid yw dogfennau sgleiniog yn golygu llawer iddynt hwy (er gwaethaf y cyhwfan arnynt mewn cynadleddau gwleidyddion a gweithwyr proffesiynol); mae arfer da a chyfleoedd gwirioneddol *yn* cyfrif. Yn y pen draw, dyna nod 'ymestyn hawliau'.

**Llyfryddiaeth**


Council of Europe (1996), *Young People and Associations in Europe*, Strasbourg: Council of Europe

De Wachter, B. and Kristensen, S. (1995), *Promoting the Initiative and Creativity of Young People: the experience of the PETRA programme*, Luxembourg: European Commission

European Commission (1995), *Teaching and Learning: towards the learning society*, Luxembourg: European Commission

European Commission (1998), *Education and active citizenship in the European Union*, Luxembourg: European Commission

European Commission (2002), *A new impetus for European youth: White Paper*, Luxembourg: European Commission

Helve, H. and Bynner, J. (eds) (1996), *Youth and Life Management: Research Perspectives*, Helsinki: Helsinki University Press

Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2000), *Ymestyn Hawliau: cynorthwyo pobl ifanc yng Nghymru*, Caerdydd: Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Williamson, H. (1997a), *Youth in the Information Society*. Strasbourg: Council of Europe

Williamson, H. (1997b), *Youth and Policy: contexts and consequences*, Aldershot: Ashgate

Williamson, H. (2002), *Supporting young people in Europe: principles, policies and practice*, Strasbourg: Council of Europe

Willis, P., Bekenn, A., Ellis, T. and Whitt, D. (1988), *The Youth Review: Social Condition of Young People in Wolverhampton*, Aldershot: Avebury


**12.6.04**